

## Y meini prawf asesu a'r cynllun marcio – Blwyddyn Derfynol

Yn eich blwyddyn derfynol, disgwylwch y byddwch yn gallu adolygu'n feirniadol, atgyfnerthu ac estyn corff systematig a chydlynol o wybodaeth, gan ddefnyddio sgiliau arbenigol ar draws maes astudio; cloriannu'n feirniadol gysyniadau newydd a thystiolaeth o amrywiaeth o ffynonellau; trosglwyddo a chymhwysio sgiliau dadansoddol a chreadigol ac arddel cryn graffter mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd; a derbyn cyfrifoldeb am bennu a chyflawni canlyniadau fel unigolyn a/neu mewn grŵp.

	<b>Dosbarth Cyntaf Uchaf: 80-100%</b>	<b>Cyntaf: 70-80%</b>	<b>Ail Ddosbarth Uwch (2.1): 60-69</b>	<b>Ail Ddosbarth Is (2.2): 50-59%</b>	<b>Trydydd: 40-49%</b>	<b>Methu'n Agos: 30-39%</b>	<b>Methu'n Wael: 20-29%</b>	<b>Methu'n Wael Iawn: 0-19%</b>
<b>FFYNONELLAU</b>	Yn gadarn iawn wrth ddod o hyd i ffynonellau a dangos cryn fenter o ran y deunydd cynhwysfawr y defnyddiwyd.	Yn dangos menter arbennig. Yn cynnwys gwybodaeth anarferol neu hynod gyflawn a chydlynol.	Yn darparu gwybodaeth systematig, yn dangos gwybodaeth gadarn o'r deunydd	Yn darparu gwybodaeth resymol o systematig a chywir.	Yn darparu maint cyfyngedig o wybodaeth gyda pheth cywirdeb ond ychydig o gydlyniaid.	Yn methu â dangos maint, cywirdeb neu gydlyniaid y deunydd a gafwyd.	Deunydd yn dangos ychydig iawn o gydlyniaid; gwallau sylfaenol; annigonol o ran ffynonellau.	Nemor ddim yn berthnasol i'r cwestiwn; ffynonellau annigonol
<b>DADANSODDI</b>	Dealltwriaeth eithriadol, sy'n torri tir newydd, o'r deunydd cysyniadol a'i arwyddocâd.	Yn dangos dealltwriaeth feirniadol unigol neu rymus o'r deunydd haniaethol/cysyniadol a'i arwyddocâd.	Dealltwriaeth glir a beirniadol o gorff y deunydd a'i arwyddocâd.	Dealltwriaeth feirniadol briodol (ond efallai'n ddibynnol neu'n anghyflawn) o gorff y deunydd a'i arwyddocâd.	Peth dealltwriaeth gyfyngedig o gorff y deunydd a'i arwyddocâd.	Heb fawr o syniad beth mae beirniadaeth ar y deunydd yn ei olygu	Gwallau sylfaenol wrth ddehongli cysyniadau haniaethol neu faterion yn feirniadol.	Dim ymdrech i ddehongli na dadansoddi deunydd; gwallau dwfn a sylfaenol wrth ddehongli
<b>DADLAU</b>	Yn graff a threiddgar iawn. Ymdriniwyd yn gelfydd â deunydd heriol.	Yn dangos: meddwl annibynnol, argyhoeddiad, cynildeb, ymdriniaeth soffistigedig a gafael gref ar y ddadl	Yn dadlau mewn modd hyderus a threfnus, gyda datblygiad clir.	Yn cyflwyno braslun cyffredinol o ddadl sy'n briodol o soffistigedig	Yn cyflwyno rhai elfennau o ddadl briodol ar y lefel hon.	Ni chyflwynwyd nemor ddim dadl briodol ar y lefel hon.	Mae'r ddadl yn amherthnasol i'r cwestiwn neu'r deunydd	Ychydig iawn o ymdeimlad o ddadl o gwbl
<b>PERTHASEDD</b>	Esiampl wych o gydlynw ac o ganolbwyntio'n feirniadol ar y cwestiwn. Dirnadaeth gynnil a dofn o oblygiadau'r pwnc.	Yn canolbwyntio'n anarferol o glir, systematig a hyderus, ac yn dangos gafael feirniadol sicr ar y materion a'r mân wahaniaethau	Yn dangos synnwyr cadarn o ba mor berthnasol yw'r deunydd i'r dull dadlau beirniadol a ddewiswyd	Yn dangos synnwyr cadarn o berthnasedd, er bod hynny'n ddiffygiol ar adegau.	Yn dangos peth synnwyr cyfyngedig o berthnasedd i'r ddadl.	Yn dangos synnwyr annigonol o berthnasedd yn gyffredinol, er bod ambell i bwynt perthnasol.	Ymdriniaeth annigonol neu wallus ar y cwestiwn. Strwythur yn ddiffygiol neu'n amhriodol	Methwyd ag ymdrin â'r cwestiwn o gwbl. Dim synnwyr o strwythur.
<b>ARDDULL YSGRIFENU</b>	Esiampl wych o ran gramadeg, sillafu ac iaith soffistigedig.	Yn defnyddio llawer o elfennau ieithyddol yn rhagorol ac yn soffistigedig	Yn dangos gallu, ond efallai fod nifer sylweddol o wallau	Yn dangos gallu rhesymol ond mae gwallau yn amharu'n sylweddol ar y cyfathrebu	Yn llwyddo i gyfathrebu i raddau cyfyngedig er gwaethaf y gwallau niferus ac amrywiol	Prin y llwyddir i gyfathrebu oherwydd yr amrywiaeth eang o wallau	Methwyd â chyfathrebu'n sylfaenol mewn llawer o rannau	Heb llwyddo i gyfathrebu'n sylfaenol hyd yn oed
<b>CYFLWYNIAD</b>	Defnyddiwyd confensiynau cyfeirnod soffistigedig yn berffaith ynghyd â chyflwyniad effeithiol iawn	Yn dangos cyfeirnod cyflawn a chynhwysfawr ynghyd â chyflwyniad effeithiol dros ben	Yn dangos gafael drylwyr ar holl gonfensiynau cyfeirnod a chyflwyniad	Yn dangos gafael gyffredinol ar holl gonfensiynau cyfeirnod a chyflwyniad	Yn dangos gofal a gallu cyfyngedig o ran cyfeirnod a chyflwyniad	Yn dangos gafael annigonol ar gonfensiynau cyfeirnod a chyflwyniad	Cyfeirnod a chyflwyniad yn amhriodol	Ymdrech dila i roi egwyddorion cyfeirnod a chyflwyniad ar waith